Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Bryngwran
**Bryngwran**
**Caergybi**
**Ynys Môn**
**LL65 3PP**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymuned Bryngwran yng nghanol pentref Bryngwran sydd tua chwe milltir o dref Caergybi ar Ynys Môn. Mae’r ysgol yn derbyn plant i ddosbarth meithrin yr ysgol yn rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen blwydd yn dair oed ac yn llawn amser i’r dosbarth derbyn yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn bedair. Yn ystod yr arolygiad, roedd 47 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Fe’u haddysgir gan ddau o athrawon llawn amser ac un athrawes ran amser.

Mae’r pentref yn Gymraeg ei iaith ac mae llawer o’r disgyblion (80%) yn dod o gartrefi lle mae Cymraeg yn brif iaith. Mae 14 o ddisgyblion (30%) wedi eu cofnodi gan yr ysgol fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig ac mae dau o’r rhain ar ddatganiad anghenion addysgol arbennig. Mae’r ganran o ddisgyblion (36%) sydd â’r hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl yn uwch na’r cyfartaledd ar gyfer Ynys Môn a Chymru.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2011-2012 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymuned Bryngwran yw £4,129. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ynys Môn yw £6,563 a’r isafswm yw £2,636. Ysgol Gymuned Bryngwran yw’r 10fed allan o’r 50 ysgol gynradd yn Ynys Môn o ran cyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu a'u perfformiad blaenorol;
- yr ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu diddorol sydd, ar y cyfan, yn bodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion;
- athrawon yn defnyddio amrywiaeth effeithiol o strategaethau addysgu ac yn gwneud defnydd da o adnoddau;
- yr ysgol yn sicrhau cymuned ofalgar, gynhwysol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel; a bod
- ethos teuluol sy'n seiliedig ar weithredu polisïau sy'n parchu hawliau pob unigolyn o fewn cymuned yr ysgol yn nodwedd eithriadol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth mewn gofal yn llwyddo'n dda i ddenu cefnogaeth staff, llywodraethwyr a rhieni i symud yr ysgol yn ei blaen;
- yr ysgol yn dadansoddi data yn dda ac mae hyn yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer monitro perfformiad ar draws yr ysgol;
- dealltwriaeth dda gan aelodau'r corff llywodraethol o sut mae'r ysgol yn perfformio mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg a'r materion sy'n codi;
- ymrwymiad penodol i hybu gwelliant ac mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn adnabod cryfderau a meysydd gwella yn dda; a bod
- holl aelodau'r staff yn cyfrannu'n effeithiol i ddatblygu a gweithredu cynlluniau gwella.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 barhau i godi safonau mewn ysgrifennu yn enwedig mewn sillafu yn y Saesneg a chyfoethogi cystrawen yn y Gymraeg;

A2 parhau i ddatblygu'r cynlluniau gwaith ar gyfer cyfnod allweddol 2 i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion pob plentyn; a

A3 mireinio ei gweithdrefnau i sicrhau bod adborth ysgrifenedig a llafar i ddisgyblion yn rhoi arweiniad clir iddynt ynghylch sut i wella eu gwaith.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol 1 a 2 gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o blant mewn blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, roedd perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd (y dangosydd pynciau craidd) yn uwch na chyfartaledd yr ysgolion yn yr un teulu, ond yn is na chyfartaledd Cymru. Cyflawnodd bron pob disgybl y lefel disgwyliedig, sef lefel 2, dros y pedair blynedd ddiwethaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Yn y Gymraeg bu'r duedd yn fwy amrywiol ond bu perfformiad disgyblion yn gyfwerth neu'n uwch na chyfartaledd y teulu dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn gyffredinol, roedd y niferoedd yn cyflawni lefel 3 yng nghyfnod allweddol 1, sef lefel 3 neu well, yn is na'r teulu yn y tri phwnc craidd dros y cyfnod hwn.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd wedi bod yn uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru dros y tair blynedd ddiwethaf. Ac eithrio Saesneg yn 2011, cyflawnodd pob plentyn y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4, ym mhob pwnc craidd dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2011, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 neu uwch, yn uwch na chyfartaledd y teulu ym mhob pwnc craidd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, bu'r niferoedd yn cyflawni'r lefelau uwch yn is na chyfartaledd y teulu dros y tair blynedd flaenorol.

Mewn gwersi a thros gyfnod, mae rhan fwyaf y ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu a'u perfformiad blaenorol. Mae'r disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol yn ddi-dâl a'r rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd disgwyliedig yn unol â'u hoed a'u gallu. Nid yw disgyblion o allu uwch bob amser yn cyflawni cystal ag y dylent.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ar lafar mewn ystod o sefyllfaoedd. Maent yn gwrando'n dda ac yn cyfrannu'n frwd i drafodaeth gan ddefnyddio brawddegau cyflawn. Mae ganddynt afael dda ar eirfa a thermau ac fe wnânt gynnydd da mewn medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ac yn siarad yn glir, gan gyfleu eu meddyliau a'u teimladau yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn gallu egluro'r hyn y maent yn ei ddysgu ac yn cyfrannu sylwadau meddylgar yn y dosbarth ac mewn trafodaeth grŵp. Gall y rhan fwyaf ddarllen yn y ddwy iaith ar goedd yn ystyrlon a chyda goslef briodol. Mae'r darllenwyr mwy abl yn trafod cynnwys ac arddull a mynegiant awduron yn ddeallus.

Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n dda i sawl pwrpas ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif yn ysgrifenwyr cymwys ac yn sillafu ac atalnodi'n gywir. Maent yn ysgrifennu mewn ffurfiau amrywiol ac at wahanol

ddibenion, gan ddangos y gallu i amrywio arddull. Yn gyffredinol, mae gan ddisgyblion afael cadarn o reolau gramadeg ac mae llawer yn gwneud defnydd da o derminoleg pwnc berthnasol. Serch hynny, mae diffyg cystrawen yn y Gymraeg a gwallau sillafu yn y Saesneg yn amlygu yng ngwaith ysgrifenedig ychydig o'r disgyblion.

Mae mwyafrif y disgyblion yn trefnu eu gwaith ysgrifenedig yn dda ac yn cymryd gofal da o'r modd y maent yn ei gyflwyno.

**Lles: Da**

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda o'r hyn sydd ei angen i gadw'n iach ac i fagu arferion personol iach, gan gynnwys ffitrwydd. Maent yn cymryd mantais o gyfleoedd i gael ymarfer corff a gweithgareddau perthnasol mewn clybiau ar ôl ysgol.

Yn unfrydol bron, mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus iawn yn yr ysgol. Gwyddant at bwy i droi am gymorth a chyngor. Mae rhan fwyaf y disgyblion drwy'r ysgol yn gweithio'n gynyddol annibynnol ac yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd. Maent yn gwneud defnydd da o'u hamser ac yn cadw ar dasg. Maent yn frwdfrydig ac yn dangos agwedd bositif tuag at ddysgu.

Mae lefelau presenoldeb tros nifer o flynyddoedd yn dda iawn er y bu gostyngiad y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Mae llais y disgybl yn cael lle amlwg yng ngweithgareddau a phenderfyniadau'r ysgol. Ceir cyfraniadau pwrpasol gan y cyngor ysgol tuag at gynnig gwelliannau a gweithredu. Er enghraifft, mae'r cyngor yn trefnu digwyddiadau megis taith noddedig i godi arian i'r ysgol ac wedi sefydlu menter 'Blodau'r Bryn' sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o fentergarwch. Datblygodd y disgyblion gyswllt effeithiol gyda nifer o fudiadau a gwasanaethau. Drwy'r cysylltiadau hyn maent yn datblygu amrediad da o fedrau cymdeithasol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r athrawon yn darparu ystod o brofiadau dysgu diddorol sydd, ar y cyfan, yn bodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r ysgol yn cyfarfod â gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae ystod o gyfleoedd allgyrsiol, ymwelwyr, a'r ymweliadau a drefnir ar gyfer y disgyblion, yn cefnogi ac yn cyfoethogi eu profiadau yn effeithiol.

Cynllunnir yn fanwl a bwriadus ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen a rhoddir sylw da i ddiddordebau'r disgyblion. Mae cynlluniau tymor hir cyfnod allweddol 2 yn cynnig ystod diddorol o brofiadau sy'n ennyn brwdfrydedd y disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn rhoi digon o arweiniad i sicrhau lefel briodol o her i'r ystod oed a gallu yn y dosbarth.

Mae'r athrawon yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu'r medrau ar draws y cwricwlwm. Ar y cyfan, mae'r cynllunio manwl yn datblygu dilyniant a datblygiad

priodol mewn medrau cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwella medrau llafar a darllen disgyblion yn y ddwy iaith yn dda ac yn llwyddo i osod seiliau cadarn ar gyfer datblygu medrau iaith y disgyblion. Serch hynny, mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ymestyn eu medrau ysgrifennu yn llawn ar draws y cwricwlwm.

Mae'r dimensiwn Cymreig yn nodwedd gref o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth yn hyrwyddo adnabyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol ac am Gymru fel cenedl.

Caiff datblygiad cynaliadwy ei hybu yn dda yn yr ysgol, yn enwedig yng ngweithgareddau'r ardd. Trefnir nifer o weithgareddau gan staff a disgyblion i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd. Mae'r cyngor ysgol yn gweithredu'n briodol fel cymdeithas eco. Prin yw'r cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth effeithiol o strategaethau addysgu ac yn gwneud defnydd da o adnoddau. Mae amcanion a meini prawf llwyddiant disgyblion yn cynorthwyo eu dysgu, a cheir enghreifftiau cynyddol yng nghyfnod allweddol 2 o ddisgyblion yn gosod eu meini prawf llwyddiant eu hunain.
Mae perthynas waith effeithiol rhwng y disgyblion â'r oedolion ymhob dosbarth a'r disgyblion yn cydweithio'n dda. Mae'r cynllunio yn rhoi ystyriaeth i'r holl ystod oedran a gallu yng nghyfnod allweddol 2 ond nid yw'r tasgau ar gyfer y goreuon bob amser yn ddigon heriol, a'r disgyblion o'r herwydd ddim yn cael eu hymestyn. Mae'r arweiniad a'r gweithgareddau pwrpasol y mae'r disgyblion yn eu cael yn y Cyfnod Sylfaen yn sicrhau bod y disgyblion yn datblygu sgiliau rhifedd a llythrennedd o ddechrau eu cyfnod yn yr ysgol, ac yn datblygu fel dysgwyr annibynnol.

Mae proses o dracio cynnydd disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen drwy gyfnod allweddol 2 wedi ei sefydlu, a'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol er mwyn gosod targedau cwricwlaidd unigol i ddisgyblion. Mae profion safonol yn cael eu defnyddio yn dda i fesur cynnydd ac i nodi os oes angen cymorth ar ddisgyblion sy'n tangyflawni. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu datblygu, ond nid yw sylwadau ysgrifenedig yr athrawon yng nghyfnod allweddol 2 bob amser yn rhoi digon o gymorth i'r disgyblion wella'u gwaith.

Mae adroddiadau blynyddol yn bodloni'r gofynion statudol ac yn cynnwys sylwadau pwrpasol ar gynnydd y disgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn sicrhau cymuned ofalgar, gynhwysol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel. Caiff manteision byw yn iach eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn dda ar draws yr ysgol. Rhoddir sylw arbennig i anghenion personol ac emosiynol y disgyblion ac fe'u hanogir yn gyson i ddangos gofal, parch a chonsyrn tuag at ei gilydd.

Mae’r ysgol yn gweithio’n agos gydag asiantaethau allanol i adnabod a chwrdd ag anghenion dysgu’r disgyblion. Mae’r cysylltiadau cyson ac effeithiol gyda’r swyddog heddlu cymunedol a’r gwasanaethau iechyd yn hybu dealltwriaeth o’r hyn sy’n gywir a’r hyn sy’n anghywir.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae anghenion yn cael eu hadnabod yn gynnar trwy weithdrefnau asesu’r Cyfnod Sylfaen. Mae’r athrawon a’r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn monitro ac yn asesu cynnydd disgyblion trwy gyfrwng y targedau yn y cynlluniau addysg unigol. Pennir y targedau hynny gyda’r disgyblion ac fe hysbysir y rhieni’n llawn. Mae’r disgyblion sydd ar y gofrestr yn cael cymorth priodol gan gynorthwywyr. Mae’r cymorth yn cael ei gydlynu’n effeithiol iawn a gwneir defnydd da o asiantaethau allanol arbenigol yn ôl y galw.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos hapus a chyfeillgar iawn yn bodoli yn yr ysgol. Nodwedd eithriadol yw’r ethos teuluol sy’n seiliedig ar weithredu polisïau sy’n parchu hawliau pob unigolyn o fewn cymuned yr ysgol. Mae’r ymdeimlad o degwch i bawb yn amlwg iawn yng ngweithgareddau’r ysgol. Mae gweithdrefnau i atal ymddygiad gormesol, megis bwlio, yn effeithiol iawn. Addysgir y disgyblion i barchu ac i ofalu am eu hamgylchedd.

Mae’r adeilad yn cynnig dosbarthiadau a chyfleusterau pwrpasol ar gyfer nifer y ddisgyblion. Gwna’r ysgol ddefnydd da ohonynt. Ceir arddangosfeydd lliwgar ac addysgiadol o waith y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae’r amrywiaeth o adnoddau tu fewn a thu allan i’r adeilad yn cael eu defnyddio’n dda er mwyn cyfoethogi’r dysgu a’r addysgu.

Caiff yr adeiladau a'r tir eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn darparu amgylchedd hyfryd ar gyfer chwarae a dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r pennaeth mewn gofal yn llwyddo’n dda i ddenu cefnogaeth staff, llywodraethwyr a rhieni i symud yr ysgol yn ei blaen. Mae ei disgwyliadau yn uchel ac mae ethos o ymestyn at wella wedi ei sefydlu drwy’r ysgol. Adolygwyd rolau staff yn ddiweddar gan roi pwyslais priodol ar gydweithio effeithiol. Mae cyfarfodydd wythnosol ar gyfer staff yn canolbwyntio’n briodol ar ddeilliannau hunanarfarnu a materion gwella. Mae’r rhain yn cynorthwyo staff i ddeall eu rôl mewn perthynas â strategaethau’r ysgol a’u cyfrifoldebau am godi safonau.

Mae’r ysgol yn dadansoddi data yn dda ac mae hyn yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer monitro perfformiad ar draws yr ysgol. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol ac maent yn arwain at amcanion priodol i athrawon unigol. Maent yn cysylltu’n

briodol â gwelliannau ysgol gyfan ac maent hefyd yn berthnasol i anghenion datblygu proffesiynol staff.

Mae’r corff llywodraethol yn frwdfrydig, yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn ymwybodol o’i gyfrifoldebau. Mae’n derbyn dadansoddiadau effeithiol o ddata ac yn ymwybodol o’r materion perthnasol sy’n codi. Mae gan yr aelodau ddealltwriaeth dda o sut mae’r ysgol yn perfformio mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg ac maent yn ymwybodol o brif flaenoriaethau gwella’r ysgol. Mae’r corff yn cyfrannu’n briodol i’r trefniadau hunanarfarnu. Drwy ysgwyddo cyfrifoldeb am agweddau o waith yr ysgol mae aelodau unigol yn datblygu eu dealltwriaeth uniongyrchol o’r materion perthnasol ac yn datblygu eu gallu i herio’r ysgol fel cyfaill beirniadol. Nid yw adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i rieni yn bodloni’r gofynion yn llawn.

Mae cynlluniau’r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i flaengareddau cenedlaethol a lleol ac yn eu hymgorffori mewn strategaethau priodol. Er enghraifft, mae’r ysgol wedi ymestyn y Cyfnod Sylfaen i flwyddyn 2 yn effeithiol iawn. Mae egwyddorion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgol yn cael eu hadlewyrchu yn y cydweithio proffesiynol effeithiol sy’n bodoli ar draws yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae ymrwymiad penodol i hybu gwelliant ac mae’r gweithdrefnau hunanarfarnu yn adnabod cryfderau a meysydd gwella yn dda. Er enghraifft, cafodd hybu ysgrifennu a chodi safonau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu eu hadnabod fel meysydd ar gyfer gwella ac maent yn flaenoriaethau uchel yn y cynllun datblygu cyfredol.

Mae’r trefniadau hunanarfarnu yn cynnwys dadansoddiad manwl o ddata perfformiad ac yn ymgorffori rhaglen gynhwysfawr o arfarnu holl waith yr ysgol dros gylch tair blynedd. Mae ffocws y gwaith ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Mae’r ysgol yn defnyddio ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol sy’n cynnwys arfarniadau arweinwyr pynciol, dadansoddiad o asesiadau o gynnydd disgyblion a holiaduron rhieni. Rhoddir ystyriaeth briodol i argymhellion gwasanaeth addysg yr awdurdod lleol ac mae anghenion gwella’r cyngor ysgol yn cael blaenoriaeth uchel yng nghynlluniau datblygu’r ysgol.

Mae holl aelodau’r staff yn cyfrannu’n effeithiol i ddatblygu a gweithredu cynlluniau gwella. Mae’r rhain yn cynnwys ystod dda o weithdrefnau perthnasol gan adnabod aelodau staff a chyfrifoldeb dros eu gweithredu. Maent hefyd yn cynnwys dangosyddion llwyddiant ac amserlenni addas ar gyfer eu cwblhau. Mae trefniadau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant wedi sefydlu’n effeithiol ym mywyd yr ysgol ac yn cyfrannu’n dda at wella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth.

Mae’r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth ymateb i argymhellion yr arolygiad diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol gyda rhieni a gofalwyr ac mae’r disgyblion yn elwa o gyfraniad rhieni at weithgareddau megis nofio, hybu darllen a datblygu’r ardd. Mae rhieni’r ysgol yn grŵp gweithgar sy’n cyfoethogi profiadau’r disgyblion.

Mae cysylltiadau proffesiynol da rhwng yr ysgol â'r cylch meithrin a hefyd gyda'r ysgol uwchradd.  O ganlyniad, mae trefniadau trosglwyddo yn effeithiol iawn.

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau buddiol o fewn ei chymuned.  Mae'r ymweliadau rheolaidd â'r eglwys a chapeli lleol ac â'r cartref henoed yn y pentref yn hybu ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cymuned a phwysigrwydd cyfrannu iddi. Cydweithir gyda nifer o asiantaethau i ennill achrediadau megis Ysgol Iach, Eco Sgolion, ac Ysgol Werdd. Mae'r profiadau hyn yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o egwyddorion cadw'n iach a chynaliadwyedd.

Gwneir defnydd sylweddol o neuadd yr ysgol gan y gymuned.  Mae'r ysgol yn elwa o gyfraniadau'r Cyngor Plwyf ac fe gaiff disgyblion brofiadau gwerthfawr o fynychu cyfarfodydd y Cyngor i adrodd am y gweithgareddau a gefnogwyd.  Mae'r gwahoddiadau rheolaidd a gaiff disgyblion blwyddyn 6 i weithgareddau a drefnir gan y clwb ieuenctid yn cryfhau eu hymwneud â gweithgareddau cymunedol tu hwnt i'r ysgol.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae trefniadau rheoli perfformiad staff yr ysgol yn diwallu anghenion datblygu staff yn dda.  Mae'r trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer diwallu anghenion cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol.  Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i addysgu'r holl gwricwlwm yn effeithiol ac fe wneir defnydd da o brofiad a diddordeb staff.  Gwneir defnydd da o gynorthwywyr dosbarth a staff ategol ac fe'u rheolir yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau priodol.

Rheolir adnoddau ariannol yn dda a defnyddir gwybodaeth o adroddiadau cyllidol i addasu cynlluniau gwario pan fo angen.  Ceir cydbwysedd a dealltwriaeth priodol rhwng cyfrifoldebau'r llywodraethwyr a'r pennaeth mewn perthynas ag awdurdodi gwariant.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian o ran y defnydd a wna o'r gyllideb a'r deilliannau ar gyfer disgyblion.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd blwyddyn 2, yng nghyfnod allweddol 1, ac ar ddiwedd blwyddyn 6, yng nghyfnod allweddol 2, gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o blant mewn blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, roedd perfformiad yr ysgol mewn perthynas â'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, i ddisgyblion saith mlwydd oed (y dangosydd pwnc craidd), yn uwch na chyfartaledd ysgolion yn yr un teulu, ond yn is na chyfartaledd Cymru. Mewn mathemateg, cyflawnodd pob disgybl y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 2, dros y pedair blynedd diwethaf a gwnaeth pob disgybl hynny mewn gwyddoniaeth mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Yn y Gymraeg bu'r duedd yn fwy amrywiol ond bu perfformiad disgyblion yn gyfwerth neu uwch na chyfartaledd y teulu dros y tair blynedd diwethaf.

Roedd perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pynciau craidd yn y 50% isaf o ysgolion sy'n debyg o ran niferoedd cinio am ddim mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, bu'r perfformiad yn y 25% uchaf am y pedair blynedd diwethaf mewn mathemateg dros y cyfnod hwn a'r perfformiad mewn gwyddoniaeth yn y 25% uchaf mewn tair o'r blynyddoedd hyn.

Mae'r niferoedd yn cyflawni lefel 3 neu uwch, wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf. Yn gyffredinol, roedd yn is na'r teulu yn y tri phwnc craidd dros y cyfnod hwn. Ni chyflawnodd unrhyw blentyn lefel uwch na'r disgwyl mewn unrhyw bwnc yn 2011 ac ni wnaeth unrhyw blentyn hynny mewn gwyddoniaeth dros y pedair blynedd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru dros y tair blynedd diwethaf. Ac eithrio Saesneg yn 2011 cyflawnodd pob plentyn y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4, yn y pedwar pwnc craidd dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r canlyniadau yn y dangosydd pwnc craidd yn ystod y tair blynedd diwethaf wedi bod ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg o safbwynt niferoedd plant cinio am ddim. Yn y Gymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth bu yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ers pedair blynedd.

Yn 2011, roedd canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn uwch na chyfartaleddau'r teulu ym mhob pwnc craidd. Yn gyffredinol, bu'r niferoedd yn cyflawni'r lefelau uwch yn is na chyfartaledd y teulu dros y tair blynedd flaenorol.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Mae pob rhiant yn datgan eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol a bod eu plant yn ddiogel ynddi. Mae pob un hefyd yn credu bod ymddygiad y disgyblion yn dda, bod y disgyblion yn cael eu parchu a'u trin yn deg ac yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Mae pob rhiant yn teimlo fod yr addysgu yn y dosbarthiadau yn dda a bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Mae pob rhiant hefyd yn dweud fod eu plant yn hoffi'r ysgol. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o'r rhieni yn teimlo nad ydynt yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant ac nad ydynt yn deall trefniadau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion. Mae bron pob rhiant o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda neu yn dda iawn.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd y rhan fwyaf o ddysgwyr CA2 yr holiadur. Mae pob un yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bron pob disgybl yn teimlo bod yr ysgol yn ymdrin â bwlio'n dda. Mae pob disgybl yn gwybod pwy y gallant siarad â nhw os ydynt yn poeni neu os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Mae pob un ohonynt hefyd o'r farn bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd a'u bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae ychydig o'r disgyblion yn teimlo nad yw eu gwaith cartref yn eu cynorthwyo i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn teimlo fod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Iwan Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Goronwy Morris | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Aled Glyn Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Powell | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |